Estyn

# Arweiniad i Arolygwyr

## Sut rydym yn arolygu

ar gyfer arolygiadau o 2023 - diweddarwyd Ionawr 2024



estyn.gov.wales

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**© Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

| Cynnwys | Tudalen |
|---|---|


**Cyflwyniad** **1**

Diben y llawlyfr arweiniad 1
Y sail gyfreithiol ar gyfer arolygu ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion 1
Y sail gyfreithiol ar gyfer arolygu ysgolion annibynnol 2
Cefndir polisi 2
Arolygu'r Cwricwlwm i Gymru mewn ysgolion a gynhelir ac UCDau 3
Arolygu'r cwricwlwm mewn ysgolion annibynnol 4
Ystyried effaith pandemig COVID-19 4

**Rhan 1: Trefniadau arolygu** **5**

Cyflwyniad 5
Egwyddorion arolygu 5
Meddylfryd arolygu 6
Disgwyliadau o ran arolygwyr 6
Disgwyliadau o ran darparwyr 7
Disgwyliadau o ran swyddogion awdurdodau lleol a swyddogion rhanbarthol 7
Diogelu, yn cynnwys materion iechyd, diogelwch a lles 7
Dull arolygu 8
Yr Ystafell Arolygu Rithwir 8
Y tîm arolygu 8
Cysylltu â'r darparwr a'r awdurdod lleol sy'n gyfrifol am ysgolion a gynhelir ac UCDau cyn yr arolygiad 10
Cynllunio'r arolygiad a pharatoi'r tîm 11
Yn ystod yr arolygiad 12
Ar ôl yr arolygiad 15
Gwirio cywirdeb ffeithiol 16
Sicrhau ansawdd arolygiadau 16

**Rhan 2: Arweiniad ar weithgarwch dilynol** 17

Arweiniad i arolygwyr ar roi ysgol a gynhelir neu UCD mewn categori gweithgarwch dilynol 17
Arweiniad i arolygwyr ar ysgolion sy'n peri pryder ac y gall fod angen eu rhoi mewn categori statudol 18
1 Mesurau arbennig 18
2 Gwelliant sylweddol 23
3 Adolygu gan Estyn 26
Bodloni'r gofynion statudol mewn ysgolion annibynnol 26
Gweithgarwch dilynol mewn Ysgolion Annibynnol 27
Gweithgareddau Adolygu gan Estyn 27

# Cyflwyniad

## Diben y llawlyfr arweiniad 'Sut rydym yn arolygu'

Mae'r llawlyfr hwn yn amlinellu ein dulliau o arolygu ysgolion a gynhelir (ysgolion cynradd, uwchradd, pob oed ac arbennig), ysgolion annibynnol ac unedau cyfeirio disgyblion. Mae'n esbonio **sut** rydym yn arolygu. Mae'r arweiniad yn ddeunydd darllen hanfodol i arolygwyr cofnodol a holl aelodau eraill y tîm arolygu. Gallai fod yn ddefnyddiol i ddarparwyr hefyd i ategu eu dealltwriaeth o'r meddylfryd a methodolegau arolygu.

Dylid darllen yr arweiniad ochr yn ochr â 'Beth rydym yn ei arolygu', sy'n amlinellu'r fframwaith arolygu. Gall ysgolion ac UCDau ddefnyddio'r arweiniad hwn i weld sut mae arolygiadau'n gweithio.

Pan fydd yr arolygiad yn nodi arfer sy'n werth ei rhannu, bydd arolygwyr yn gwahodd y darparwr i ysgrifennu astudiaeth achos y byddwn yn ei chyhoeddi ar ein gwefan. Pan fydd yr arolygiad yn nodi pryderon pwysig yn ymwneud â safonau, ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant, neu arweinyddiaeth a rheolaeth, byddwn yn trefnu gweithgarwch dilynol i gefnogi gwelliant. Mae arweiniad ar y gwahanol fathau o weithgarwch dilynol ar gael ar dudalen 18 y llawlyfr hwn.

Mae rhagor o wybodaeth am arolygiadau ar gael ar wefan yr arolygiaeth, sef www.estyn.llyw.cymru

## Y sail gyfreithiol ar gyfer arolygu ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion

Caiff ysgolion ac UCDau eu rheoli gan Ddeddf Addysg 2005 a rheoliadau cysylltiedig. Rhaid i arolygiadau gael eu cynnal gan dimau o arolygwyr, wedi'u harwain gan AEM, arolygydd ychwanegol neu Arolygydd Cofrestredig, a rhaid iddynt arwain at adroddiad cyhoeddedig. Mae Adran 28 Deddf Addysg 2005 yn dweud bod rhaid i arolygwyr adrodd ar:

- y safonau addysgol a gyflawnir
- ansawdd yr addysg a ddarperir
- i ba raddau y mae addysg yn bodloni anghenion yr ystod o ddisgyblion
- ansawdd yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth, gan gynnwys a yw'r adnoddau ariannol yn cael eu rheoli'n effeithiol
- datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion
- p'un a yw'r ddarpariaeth yn hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach
- cyfraniad y ddarpariaeth at les disgyblion

Mae cymeriad crefyddol i rai ysgolion ac maent yn addysgu addysg grefyddol enwadol. Yn yr ysgolion hyn, caiff addysg grefyddol enwadol a chynnwys addoli ar y cyd eu harolygu ar wahân dan Adran 50 Deddf Addysg 2005, ac ni chânt eu cynnwys mewn arolygiadau Adran 28.

Mae Deddf Addysg 2005 hefyd yn amlinellu hawl mynediad Estyn at safle a gwybodaeth er mwyn iddo allu cyflawni swyddogaethau o'r fath. Mae hefyd yn

datgan ei bod yn drosedd rhwystro PAEF yn fwriadol (ac arolygwyr a ddefnyddir gan PAEF) rhag cyflawni swyddogaethau yn gysylltiedig ag arolygu.

## Y sail gyfreithiol ar gyfer arolygu ysgolion annibynnol

Caiff arolygiadau ysgolion annibynnol eu rheoli gan Ddeddf Addysg 2002 a rheoliadau cysylltiedig: Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003. Mae'r rheoliadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i ysgol annibynnol fodloni'r safon briodol yn y meysydd canlynol:

- ansawdd yr addysg a ddarperir
- datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion
- lles, iechyd a diogelwch disgyblion
- addasrwydd perchnogion a staff
- y safle a'r adeiladau
- y wybodaeth a ddarperir gan yr ysgol
- y modd y mae'r ysgol yn ymdrin â chwynion

Yn ei rôl fel yr awdurdod cofrestru ar gyfer ysgolion annibynnol yng Nghymru, gall Llywodraeth Cymru, ar unrhyw adeg:

- ofyn i Brif Arolygydd Ei Mawrhydi (PAEM) arolygu unrhyw ysgol gofrestredig neu sicrhau ei bod yn cael ei harolygu gan un neu ragor o arolygwyr cofnodol
- trefnu bod unrhyw ysgol gofrestredig yn cael ei harolygu gan gorff sydd wedi'i gymeradwyo gan yr awdurdod cofrestru

Rhaid i Estyn:

- lunio adroddiad i'r awdurdod cofrestru ar y graddau y mae'r ysgol yn bodloni'r safon/au y mae'r arolygiad yn ymwneud â hi/nhw
- pan nad ydynt yn cael eu bodloni, nodi'r hyn y mae angen i'r ysgol ei wneud i gydymffurfio â'r rheoliadau
- os yw'r awdurdod cofrestru'n gofyn am hynny, trefnu i'r adroddiad gael ei gyhoeddi

## Cefndir polisi

Er nad yw'n cael ei lywodraethu'n uniongyrchol gan y polisïau a'r confensiynau canlynol, mae'r llawlyfr arweiniad hwn yn ystyried y canlynol:

Ar gyfer pob ysgol (ysgolion a gynhelir ac ysgolion annibynnol) ac UCD:

- arweiniad diogelu statudol Llywodraeth Cymru, Cadw Dysgwyr yn Ddiogel (ysgolion a gynhelir ac UCDau yn unig) https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2022-04/220401-cadw-dysgwyr-yn-ddiogel.pdf
- canllawiau gwrthfwlio Llywodraeth Cymru 2019 (ysgolion a gynhelir ac UCDau yn unig) https://llyw.cymru/bwlio-yn-yr-ysgol

<u>Ar gyfer ysgolion a gynhelir ac UCDau yn unig:</u>

- yr adolygiad o'r cwricwlwm mewn ysgolion fel y mae wedi ei amlinellu yn 'Dyfodol Llwyddiannus' (Llywodraeth Cymru, Chwefror 2015) https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/dyfodol-llwyddiannus.pdf
- yr adolygiad o hyfforddiant i athrawon yng Nghymru, fel yr amlinellir yn 'Addysgu athrawon yfory' (Llywodraeth Cymru, Mawrth 2015) https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/addysgu-athrawon-yfory.pdf
- Safonau proffesiynol ar gyfer ymarferwyr ysgol 2019 https://hwb.gov.wales/datblygiad-proffesiynol/safonau-proffesiynol/
- Cynllun datblygu'r gweithlu 2019-2021 https://llyw.cymru/cynllun-datblygur-gweithlu-2019-i-2021
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2015/2/resources/enacted/welsh
- cenhadaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer addysg yng Nghymru o 2017 i 2021 https://gov.wales/docs/dcells/publications/170926-education-in-wales-en.pdf
- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, a fabwysiadwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2004 fel y sail i lunio polisïau ar gyfer plant a phobl ifanc http://www.ohchr.org/EN/ProfessionalInterest/Pages/CRC.aspx
- Ysgolion fel sefydliadau sy'n dysgu, canllawiau ar fodel 2018 ac astudiaethau achos https://hwb.gov.wales/datblygiad-proffesiynol/ysgolion-fel-sefydliadau-sy-n-dysgu/
- Bwyta'n iach mewn ysgolion a gynhelir: canllawiau i awdurdodau lleol a chyrff llywodraethol 2014 https://llyw.cymru/bwytan-iach-mewn-ysgolion-gynhelir-canllawiau-i-ddarparwyr-addysg
- Adnodd gwerthuso a gwella cenedlaethol ar gyfer ysgolion https://www.estyn.llyw.cymru/cefnogi-diwygio-addysg/adnodd-gwerthuso-gwella-cenedlaethol-ar-gyfer-ysgolion
- Canllawiau'r Cwricwlwm i Gymru Cwricwlwm i Gymru – Hwb (llyw.cymru)
- Y daith i 2022 WG41947 Curriculum for Wales document english (gov.wales)

**Arolygu'r Cwricwlwm i Gymru mewn ysgolion a gynhelir ac UCDau**

Bydd arolygwyr yn mynd i'r afael â'u gwerthusiad o gwricwlwm yr ysgol neu'r UCD gan ystyried gweledigaeth, cyd-destun a sail resymegol y darparwr ar gyfer datblygu ei gwricwlwm teilwredig, yn unol â gofynion y Cwricwlwm i Gymru. Byddant yn ystyried y canllawiau statudol sydd ar waith. Bydd arolygwyr yn gwerthuso pa mor effeithiol yw cwricwlwm yr ysgol o ran creu cwricwlwm sy'n cynnig ystod werthchweil o brofiadau dysgu i wella dysgu a chynnydd ar gyfer pob disgybl.

Dylai arolygwyr ystyried effeithiau cadarnhaol neu negyddol unrhyw drefniadau sydd ar waith i alluogi grwpiau o ddysgwyr i fanteisio ar brofiadau dysgu gwahanol, ar y cyfan. Er enghraifft, byddwn yn ystyried p'un a yw pob disgybl yn manteisio ar gwricwlwm eang a chytbwys, cyn hired ag y bo'n bosibl.

Byddwn yn adolygu ein gofynion adrodd yn gysylltiedig â'r cwricwlwm yn rheolaidd. Bydd yr adolygiadau'n sicrhau bod y fframwaith arolygu'n parhau i alinio â'r rhaglen ar gyfer gweithrediad statudol y Cwricwlwm i Gymru.

## Arolygu'r cwricwlwm mewn ysgolion annibynnol

Dywed Reoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003 bod rhaid i ysgol lunio a gweithredu polisi ysgrifenedig effeithiol ar y cwricwlwm, sydd wedi'i ategu gan gynlluniau a chynlluniau gwaith priodol. Dylai arolygwyr werthuso ehangder, cydbwysedd a phriodoldeb y cwricwlwm.

Dylai arolygwyr werthuso i ba raddau y mae profiadau dysgu ar draws yr ysgol yn ysgogi ac yn herio'r ystod lawn o ddisgyblion, fel eu bod yn ymgysylltu'n llwyr â'u dysgu ac yn gwneud y cynnydd gorau posibl.

## Ystyried effaith pandemig COVID-19

Bydd pob arolygiad yn dechrau â thrafodaeth ag arweinwyr am effaith y pandemig ar y gymuned ddysgu. Bydd hyn yn gyfle i'r ysgol a'r UCD rannu gyda'r tîm arolygu yr heriau cychwynnol a pharhaus a ysgogwyd gan y pandemig.

Trwy gydol yr arolygiad, byddwn yn ystyried cyd-destun yr ysgol neu'r UCD, ac effaith y pandemig ar bob agwedd ar ei gwaith.

Yn y gorffennol, mae arolygwyr wedi defnyddio ystod o ddata i gefnogi eu gwerthusiadau o ddeilliannau. Mae data allanol (cyhoeddedig) wedi cael ei effeithio gan Covid-19, yn cynnwys canlyniadau cyfnod allweddol 4 a chyfnod allweddol 5, cyrchfannau ôl-16, presenoldeb ysgol a gwaharddiadau ysgol, er enghraifft. Ni fydd arolygwyr yn gallu cymharu data o fewn yr ysgol neu'r UCD neu ar eu traws, neu gyda darpariaethau eraill wedi'u meincnodi. Ni fyddant yn cymharu data rhwng y cyfnod cyn y pandemig, y cyfnod yn ystod y pandemig a'r cyfnod ar ôl y pandemig.

Wrth ystyried lles ac agweddau at ddysgu, ni fydd arolygwyr yn adrodd ar gyfradd presenoldeb yr ysgol o gymharu ag ysgolion tebyg eraill. Fodd bynnag, byddwn yn ystyried effeithiolrwydd dulliau'r ysgol o ran sicrhau bod disgyblion yn mynychu'r ysgol ac yn ymgysylltu â'u dysgu yn rheolaidd, fel rhan o'u gwerthusiad o ddarpariaeth yr ysgol ar gyfer gofal, cymorth ac arweiniad. Byddwn yn ystyried pa mor dda y mae'r ysgol wedi gwerthuso ac ymateb i unrhyw newidiadau yn anghenion cymdeithasol ac emosiynol, ymddygiad a lles disgyblion o ganlyniad i'r pandemig, cau ysgolion a dysgu o bell.

Byddwn yn ystyried ansawdd darpariaeth ystafell ddosbarth a phrofiadau dysgu a gaiff disgyblion dros gyfnod a ph'un a yw'n galluogi disgyblion i wneud y cynnydd y dylent. Byddwn yn ystyried samplau o waith disgyblion ar-lein, ar bapur neu yn eu llyfrau yn rheolaidd. Gallai rhan o'r gwaith hwn fod wedi cael ei chwblhau gartref neu drwy weithgareddau dysgu o bell.

Bydd arolygwyr yn rhoi cyfle i arweinwyr yr ysgol / UCD friffio'r tîm am effaith y pandemig ar gynnydd yr ysgol o ran datblygu mentrau newydd a chryfhau'r ddarpariaeth. Bydd arolygwyr yn ystyried y wybodaeth hon fel rhan o gyd-destun yr ysgol, a sail y dystiolaeth arolygu sy'n dod i'r amlwg.

# Rhan 1: Trefniadau arolygu

## Cyflwyniad

Mae'r adran hon wedi'i chyflwyno mewn ffordd sy'n adlewyrchu dilyniant y gwaith cyn, yn ystod ac ar ôl arolygiad craidd.

Mae'r arolygydd cofnodol (ACof) yn gyfrifol am gynnal a rheoli'r arolygiad, ac am yr adroddiad arolygu. Er bod yr arweiniad hwn yn canolbwyntio'n bennaf ar rôl yr arolygydd cofnodol, rhaid i holl aelodau'r tîm gydymffurfio â'r un gofynion arolygu.

## Egwyddorion arolygu

Mae timau arolygu'n gweithio'n unol â nifer o egwyddorion allweddol. Maent:

- yn dwyn ymagwedd tuag at arolygu sydd wedi'i harwain gan ddysgwyr
- yn canolbwyntio'n gryf ar ansawdd ac effeithiolrwydd addysgu a dysgu bob tro
- yn ystyried popeth yn y dogfennau arweiniad 'beth' rydym yn ei arolygu a 'sut', ond yn adrodd ar y prif gryfderau a gwendidau yn unig
- yn sicrhau bod pob arolygiad yn canolbwyntio ar y darparwr penodol, ac yn addasu eu dulliau'n unol â hynny
- yn defnyddio ystod o fethodolegau a dulliau arolygu teilwredig sydd wedi'u teilwra i fodloni amgylchiadau'r darparwr, er mwyn gwerthuso ehangder gwaith y darparwr yn gadarn ac yn deg
- yn mabwysiadu dull adeiladol sy'n sicrhau bod y rhyngweithiad â'r darparwr yn brofiad dysgu proffesiynol i'w staff a'r tîm arolygu yn ei gyfanrwydd

Yn ogystal, bydd arolygwyr

- yn sicrhau bod arolygu'n ymatebol i anghenion pob dysgwr
- yn sicrhau bod gwerthusiadau'n gadarn, yn ddibynadwy, yn ddilys ac wedi'u seilio ar dystiolaeth uniongyrchol
- yn cynnwys y darparwr yn llawn yn y broses arolygu, gan gynnwys rhoi cyfle i'r ysgol ddewis enwebai
- yn defnyddio blaenoriaethau gwella'r darparwr fel man cychwyn ar gyfer yr arolygiad, ac yn nodi meysydd allweddol i ymchwilio iddynt er mwyn gwerthuso dilysrwydd ei ganfyddiadau
- yn cynnwys arolygwyr cymheiriaid yn y broses arolygu
- yn sicrhau cyn lleied o ofynion ag y bo modd ar gyfer dogfennaeth a pharatoi gan y darparwr
- yn caffael safbwynt dysgwyr a rhanddeiliaid eraill
- yn cymhwyso egwyddor o gydraddoldeb i'r Gymraeg a'r Saesneg yn ein holl waith arolygu

## Y Meddylfryd Arolygu

Mae ymagwedd Estyn tuag at arolygu fel a ganlyn:

- **Teg a diduedd** – mae hyn yn golygu ein bod yn gweithio i fod yn annibynnol, yn wrthrychol ac yn gytbwys. Rydym yn gadarn ac yn gyson yn ein gwaith. Rydym yn pwyso a mesur y dystiolaeth a'i harwyddocâd i gynnig barn onest, gredadwy a chywir o gryfderau a meysydd i'w gwella'r darparwr.
- **Cefnogol** - rydym yn gweithio i lywio darparwyr i roi gwelliannau ar waith sydd o fudd i ddysgwyr. Rydym yn annog arloesedd ac yn cydnabod bwriadau da. Mae ein hymagwedd yn gyfeillgar ond yn broffesiynol bob amser. Rydym yn cefnogi diwygiadau addysg. Rydym yn gweithio'n galed i feithrin perthynas ystyrlon â darparwyr, a sefydliadau lleol a rhanbarthol.
- **Myfyriol** – rydym yn eangfrydig. Rydym yn gwrando ar ystod eang o randdeiliaid ac yn myfyrio ar eu hymatebion. Rydym yn feddylgar, yn bwyllog ac yn ofalus. Rydym yn cynllunio cyfleoedd i feddwl yn ofalus am ganfyddiadau'r arolygiad a'u trafod ag aelodau eraill o'r tîm.
- **Tryloyw** – rydym yn wybodus ac yn cyfathrebu'n glir, yn uniongyrchol ac yn gryno. Rydym yn defnyddio methodolegau arolygu effeithlon ac effeithiol i ymateb i sefyllfa unigryw'r darparwr. Rydym yn cynllunio gweithgarwch arolygu ac yn adrodd ar gryfderau a gwendidau mewn ffyrdd sy'n adlewyrchu amgylchiadau penodol pob darparwr unigol. O ganlyniad, mae ein gweithredoedd yn hybu ymddiriedaeth a pharch.

## Disgwyliadau o ran arolygwyr

Mae ein disgwyliadau o ran arolygwyr yn esbonio sut rydym yn ymgorffori ein meddylfryd trwy ein gweithredoedd. Dylai arolygwyr gynnal y safonau uchaf posibl yn eu gwaith. Rhaid i bob arolygydd fodloni'r safonau disgwyliedig o ran ymddygiad.

Wrth ymgysylltu â darparwr, bydd arolygwyr:

- yn gwrtais ac yn broffesiynol
- yn sefydlu a chynnal ffiniau proffesiynol priodol wrth siarad â phlant ac oedolion
- yn gwneud eu gwaith ag uniondeb, parch a sensitifrwydd priodol
- yn cymryd yr holl gamau rhesymol i atal gorbryder gormodol a lleihau straen yn ystod gweithgarwch arolygu
- yn gwerthuso gwaith y darparwr yn wrthrychol gan ddefnyddio tystiolaeth glir a thrylwyr
- yn adrodd yn onest, yn deg ac yn ddiduedd heb ofn na ffafriaeth
- yn cyfathrebu'n glir ac yn agored
- yn gweithredu er lles pennaf y dysgwyr
- yn parchu cyfrinachedd yr holl wybodaeth sy'n dod i law yn ystod eu gwaith
- yn ymateb yn briodol i geisiadau rhesymol

Mae'n bwysig ein bod yn gwerthuso effeithiolrwydd y ddarpariaeth a'r arweinyddiaeth ar sail eu heffaith, ac nid ar sail unrhyw ffafriaethau am ddulliau penodol. Yr hyn sy'n allweddol i'n gwerthusiadau yw p'un a yw'r dulliau a'r drefniadaeth yn addas at y diben o ran cynorthwyo'r holl ddisgyblion i gyflawni safonau uchel a lefelau lles cryf.

Dylai arolygwyr roi gwybod i Estyn am unrhyw achosion canfyddedig neu wirioneddol o wrthdaro buddiannau pryd bynnag y maent yn derbyn hysbysiad am ymgysylltiad, er enghraifft eu bod yn rhan o dîm arolygu darparwr.

## Disgwyliadau o ran darparwyr

Er mwyn i arolygu a rheoleiddio fod yn adeiladol a buddiol, mae'n bwysig fod arolygwyr a darparwyr yn sefydlu a chynnal amgylchedd gweithio proffesiynol yn seiliedig ar gwrteisi, parch ac ymddygiad proffesiynol ar y ddwy ochr. Rydym yn disgwyl i arolygwyr gynnal ein Disgwyliadau o ran arolygwyr, ond rydym hefyd yn disgwyl i ddarparwyr:

- fod yn gwrtais ac yn broffesiynol, gan barchu arolygwyr a staff cymorth arolygu
- gweithredu er lles pennaf y dysgwyr
- darparu tystiolaeth – neu roi mynediad at dystiolaeth – sy'n galluogi arolygwyr i gynnal yr arolygiad mewn ffordd agored, onest a gwrthrychol
- cydnabod bod angen i arolygwyr arsylwi arfer a siarad â staff, dysgwyr a rhanddeiliaid eraill heb i reolwr neu uwch arweinydd fod yn bresennol
- gweithio gydag arolygwyr i gymryd yr holl gamau rhesymol i leihau tarfu, straen a biwrocratiaeth i'r eithaf
- cynnal deialog bwrpasol gyda'r Arolygydd Cofnodol ac arolygwyr eraill
- tynnu sylw arolygwyr at unrhyw bryderon am yr arolygiad mewn modd amserol ac addas, trwy'r enwebai
- rhoi ystyriaeth briodol i iechyd a diogelwch a lles arolygwyr tra byddant ar y safle
- cynnal cyfrinachedd cyfarfodydd a chanfyddiadau arolygu hyd nes cyhoeddi'r adroddiad yn derfynol
- sicrhau bod timau arolygu yn cael mynediad i ardal breifat i drafod tystiolaeth arolygu a chynnal trafodaethau cyfrinachol

Dylid tynnu sylw'r tîm at unrhyw gamerâu cylch cyfyng ac offer recordio yn ystod y cyfarfod tîm cychwynnol.

Adeg yr hysbysiad am yr arolygiad, dylai ysgolion / UCDau adolygu cyfansoddiad y tîm arolygu. Cyfrifoldeb y darparwr yw amlygu unrhyw achosion canfyddedig neu wirioneddol o wrthdaro buddiannau cyn dechrau unrhyw ymgysylltiad, er enghraifft cyn eu harolygiad ar y safle neu ymweliad interim.

## Disgwyliadau o ran swyddogion awdurdodau lleol a swyddogion rhanbarthol

Disgwylir i swyddogion awdurdodau lleol a swyddogion rhanbarthol sy'n mynychu adborth mewn darparwyr gydymffurfio â'r un egwyddorion â disgwyliadau o ran darparwyr.

## Diogelu, yn cynnwys materion iechyd, diogelwch a lles

Bydd arolygwyr yn cynnal arolygiadau yn unol ag arweiniad Estyn ar arolygu diogelu. Os byddant yn sylwi ar unrhyw beth sydd, yn eu barn nhw, yn achosi perygl i ddiogelwch staff, ymwelwyr neu ddisgyblion, dylai arolygwyr rybuddio rheolwyr yn y ddarpariaeth.

Os daw arolygydd yn ymwybodol o honiad / amheuaeth ynghylch diogelu sy'n

ymwneud â phlentyn, unigolyn ifanc neu oedolyn bregus, dylai ddilyn y gweithdrefnau sydd wedi'u hamlinellu yn fersiwn gyfredol 'Polisi a gweithdrefnau Estyn ar gyfer diogelu', sydd ar gael ar ein gwefan.

Ym mhob achos, dylai arolygwyr wneud nodyn ar wahân o'r bygythiad a'u bod wedi rhoi gwybod i reolwyr amdano. Dylai arolygwyr adrodd ar risgiau amlwg yn ymwneud ag iechyd, diogelwch a lles dan faes arolygu 4 (Gofal, cymorth ac arweiniad). Lle mae'r risgiau hyn yn peri pryder difrifol, dylai arolygwyr gynnwys sylw byr yn nhestun yr adroddiad ac argymhelliad yn yr adroddiad. Byddwn yn anfon llythyr lles at y darparwr a'r awdurdod lleol yn gofyn iddynt amlinellu sut byddant yn mynd i'r afael â'r diffyg.

## Dull arolygu

Gall nifer yr arolygwyr a nifer y dyddiau y byddant yn eu treulio yn y darparwr amrywio yn ôl maint a chyd-destun y darparwr.

Byddwn yn cynnal arolygiadau'n unol â'n Polisi Iaith Gymraeg, sydd ar gael ar ein gwefan. Hefyd, bydd arolygwyr yn defnyddio ein harweiniad atodol ar lythrennedd a'r Gymraeg.

## Yr Ystafell Arolygu Rithwir

Byddwn yn defnyddio system electronig o'r enw'r 'Ystafell Arolygu Rithwir' (YAR) i reoli sawl agwedd ar yr arolygiad. System ar y we yw hon sy'n caniatáu i ddarparwyr lanlwytho gwybodaeth cyn yr arolygiad, a lawrlwytho arweiniad gennym ni ar y broses arolygu. Hefyd, yr YAR yw'r man lle gall penaethiaid ac enwebeion fynd at yr holiaduron ôl-arolygiad.

Rydym yn sicrhau diogelwch gwybodaeth sy'n cael ei lanlwytho trwy gynnal profion hacio ar yr YAR. Mae'r profi hwn yn gwerthuso diogelwch systemau. Rydym yn nodi ac yn cymryd unrhyw gamau i atal mynediad heb awdurdod. Mae gan holl ddefnyddwyr system YAR Estyn enw defnyddiwr a chyfrinair, sydd wedi eu cofnodi ac yn cael eu cynnal yn ddiogel o fewn cyfeiriadur gweithredol. Hefyd, mae gan y system nodweddion i sicrhau bod cyfrineiriau'n cael eu diogelu, yn cynnwys darganfod bygythiadau a mynediad amodol.

## Y tîm arolygu

Mae rolau gwahanol yn y tîm arolygu.

| Aelod tîm | Esboniad | Rôl |
|---|---|---|
| Arolygydd Cofnodol (ACof), y gellir cyfeirio ato/ati hefyd fel yr arolygydd arweiniol | Bydd yr ACof ar gyfer arolygiad yn un o'r canlynol:<br><br>AEM (Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru) – caiff AEM eu penodi gan y goron. Maent yn weision sifil sydd wedi'u cyflogi'n uniongyrchol gan Estyn. | Yr ACof sy'n arwain ac yn rheoli'r tîm arolygu. Bydd yn cysylltu â'r ysgol/UCD a'r tîm cyn yr arolygiad, ac yn sicrhau ansawdd gwaith y tîm. Yr ACof yw'r pwynt cyswllt cyntaf i bawb yn ystod y rhan o'r |

| | | |
|---|---|---|
| | AY (Arolygydd Ychwanegol) – fel arfer, bydd AYau yn ymuno ag Estyn dros dro, er enghraifft ar secondiad o ysgolion a darparwyr eraill.<br><br>ACau (Arolygwyr Cofrestredig) – mae ACau yn arolygwyr arweiniol hyfforddedig a chymwysedig sy'n cael eu contractio i arwain arolygiadau penodol. Yn aml, mae ACau yn benaethiaid cyfredol neu rai sydd wedi ymddeol yn ddiweddar ac sydd â phrofiad sylweddol o weithio gydag Estyn, er enghraifft fel arolygydd cymheiriaid. | broses arolygu sy'n digwydd ar y safle. |
| Arolygwyr tîm (AT) | Caiff nifer yr arolygwyr tîm ei phennu gan faint y darparwr. Gall arolygwyr tîm fod yn AEM neu'n arolygwyr ychwanegol dan gontract sydd wedi'u hyfforddi gan Estyn. Mae'r holl arolygwyr tîm yn athrawon cymwysedig. Weithiau, bydd arolygydd tîm ag arbenigedd penodol yn ymuno â'r tîm am ddiwrnod hefyd, er enghraifft os oes cyfleuster ADY arbenigol fel dosbarthiadau i ddisgyblion â nam ar y clyw. | Gallai arolygwyr tîm fod yn gyfrifol am gasglu tystiolaeth i lywio gwerthusiad y tîm o agweddau gwahanol ar yr arolygiad. Mae'r ACof yn cyfarwyddo ac yn rheoli gwaith yr arolygwyr tîm. |
| Arolygydd cymheiriaid | Mae arolygydd cymheiriaid yn uwch arweinydd o ysgol neu UCD arall sydd wedi cwblhau hyfforddiant ac asesiad arolygydd cymheiriaid Estyn. Yng Nghymru, mae gan bob tîm arolygu arolygydd cymheiriaid yn aelod o'r tîm. Mewn ysgolion/UCDau mwy, efallai y bydd mwy nag un arolygydd cymheiriaid ar y tîm. Weithiau, bydd ymgynghorwyr her yn ymuno â thimau arolygu. | Mae arolygwyr cymheiriaid hefyd yn gyfrifol am gasglu tystiolaeth i lywio gwerthusiadau'r tîm. Maent yn rhan annatod o'r tîm arolygu. Mae'r ACof yn cyfarwyddo ac yn rheoli gwaith yr arolygydd cymheiriaid. |
| Arolygydd lleyg – ysgolion a gynhelir yn unig | Nid yw arolygwyr lleyg yn athrawon cymwysedig ac nid oes ganddynt gefndir yn gweithio mewn ysgolion neu UCDau, er mae ganddynt brofiad mewn rhyw fath o waith cymunedol, fel arfer. Maent yn dod â dimensiwn anarbenigol gwahanol i waith y tîm. Caiff pob arolygydd lleyg ei hyfforddi a'i (h)asesu gan Estyn, a'i gontractio/chontractio i | Mae'r arolygydd lleyg yn ystyried sut beth yw bod yn ddisgybl yn yr ysgol ac yn adrodd yn ôl i'r tîm arolygu (gan gynnwys yr enwebai). Mae ei safbwyntiau'n helpu i lywio gwaith cyfredol y tîm. Fel arfer, bydd yr |

| | | |
|---|---|---|
| | weithio ar arolygiadau penodol. Mae pob arolygiad o ysgolion a gynhelir ac UCDau yn cynnwys arolygydd lleyg. | arolygydd lleyg yn ymuno â'r tîm am un diwrnod o wythnos yr arolygiad, sef y dydd Mawrth yn aml. |
| Arolygydd safle – ysgolion annibynnol yn unig | Mewn ysgolion annibynnol, er mwyn cydymffurfio â Rheoliadau Addysg (Adeiladau Ysgol) 1999, mae arolygydd ychwanegol â chymwysterau priodol, sydd â phrofiad a chymhwyster mewn materion yn ymwneud ag adeiladau) yn ymuno â'r tîm. | Fel arfer, bydd yr arolygydd ychwanegol hwn yn ymuno â thîm arolygu'r ysgol annibynnol am ddiwrnod neu fwy i farnu p'un a yw'r ysgol yn bodloni'r safonau perthnasol. |
| Enwebai (o'r darparwr sy'n cael ei arolygu) | Byddwn yn gwahodd darparwr i ddewis uwch aelod staff, o'r enw'r enwebai, i weithio â'r tîm arolygu. Dylai'r enwebai fod â swydd ar lefel ddigon uchel i fod yn gyswllt rhwng y darparwr a'r tîm arolygu. Mewn llawer o achosion, yr enwebai yw pennaeth yr ysgol, neu'r athro/athrawes â gofal am y ddarpariaeth UCD. | Gall darparwyr fynd at yr arweiniad i enwebeion ar baratoi ar gyfer yr arolygiad o ddolenni yn y ffurflen cyswllt cychwynnol (FfCC), sy'n cael ei llenwi gan y Cydlynydd Arolygu (CydAr) ac sydd ar gael drwy'r YAR. |

**Cysylltu â'r darparwr a'r awdurdod lleol sy'n gyfrifol am ysgolion a gynhelir ac UCDau cyn yr arolygiad**

Bydd y darparwr yn cael 10 diwrnod gwaith o rybudd o'r arolygiad. Ar gyfer ysgolion a gynhelir ac UCDau, byddwn yn anfon llythyr i hysbysu'r awdurdod lleol (a'r esgobaeth, lle bo hynny'n briodol) am yr arolygiad ar yr un pryd. Ar gyfer ysgolion annibynnol, byddwn yn rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru am ddyddiad yr arolygiad.

Ar ôl hynny, bydd y cydlynydd arolygu yn cysylltu â'r darparwr dros y ffôn i wneud y trefniadau ar gyfer yr arolygiad. Yn ystod y drafodaeth hon, bydd y cydlynydd arolygu:

- yn esbonio diben yr arolygiad ac yn trafod rhaglen amlinellol ar gyfer yr arolygiad
- yn trafod y wybodaeth benodol sydd ei hangen cyn yr arolygiad, gan gynnwys ffurflen hunanwerthuso diogelu wedi'i llenwi gan y darparwr (naill ai ffurflen Estyn neu dempled yr awdurdod lleol, neu'r templed hunanwerthuso cenedlaethol), ac yn gwneud trefniadau ar gyfer ei derbyn ar ffurf electronig drwy'r Ystafell Arolygu Rithwir
- yn gofyn a oes unrhyw faterion neu risgiau y dylai'r tîm fod yn ymwybodol ohonynt, ac yn gofyn am sesiwn friffio gyffredinol i'r tîm ar ddechrau'r arolygiad yn ymwneud ag iechyd a diogelwch
- yn canfod a yw'r ysgol yn dymuno cael enwebai ac, os ydyw, yn cytuno ar rôl yr enwebai ac yn esbonio'r broses ar gyfer cwblhau arweiniad yr enwebai
- yn darparu dolenni ac arweiniad ar gyfer llenwi'r gyfres o holiaduron cyn-

arolygiad ar-lein (e.e. dysgwyr, rhieni, staff ac ati)
- yn cytuno ar drefniadau ar gyfer trefnu cyfarfod gyda rhieni/gofalwyr
- yn sicrhau bod gweithdrefnau cytûn i fynd i'r afael ag unrhyw bryderon neu gŵynion a all godi yn ystod yr arolygiad
- yn trefnu i aelodau o'r corff llywodraethol, y pwyllgor rheoli neu'r perchennog i gyfarfod â'r arolygwyr yn ystod y cyfnod arolygu
- yn gwneud unrhyw drefniadau domestig, fel ystafell ar gyfer yr arolygwyr, parcio a chysylltiad â'r rhyngrwyd
- yn gwneud trefniadau ar gyfer adrodd yn ôl ar ganfyddiadau'r arolygiad
- yn cytuno ar y trefniadau ar gyfer llenwi'r holiadur ôl-arolygiad
- yn rhoi gwybod i'r darparwr yn ysgrifenedig, drwy'r ffurflen cyswllt cychwynnol, am drefniadau allweddol yr arolygiad

Bydd y Cydlynydd Arolygu yn gofyn am y wybodaeth ganlynol gan y darparwr drwy'r Ystafell Arolygu Rithwir cyn gynted ag y bo modd ar ôl yr hysbysiad ffurfiol o'r arolygiad:

- gwybodaeth gefndir allweddol, e.e. enwau staff a gwybodaeth am eu rolau a'u cyfrifoldebau
- copi o'r cynllun datblygu neu'r cynllun gwella diweddaraf
- manylion am yr amserlenni ar gyfer cyfnod yr arolygiad

Os bydd yr arolygiad yn cael ei gynnal yn gynnar yn y flwyddyn ysgol, efallai yr hoffai darparwyr rannu samplau o waith disgyblion o'r flwyddyn flaenorol ag arolygwyr, os oes rhai ar gael.

Pan fyddwn yn rhoi gwybod i ddarparwyr am yr arolygiad, byddant yn cael gwybodaeth am sut i fynd at holiadur ar-lein i ddisgyblion, rhieni / gofalwyr a staff. Mewn ysgolion a gynhelir ac UCDau, mae holiaduron ar gael ar gyfer aelodau o'r corff llywodraethol neu'r pwyllgor rheoli hefyd. Bydd canlyniadau'r holiaduron cyn-arolygiad yn ffurfio rhan o'r dystiolaeth cyn-arolygiad ac yn helpu arolygwyr i lunio eu gwerthusiadau o waith yr ysgol.

Rydym yn rhoi gwybod i'r awdurdod lleol am yr arolygiad pan fyddwn yn hysbysu'r darparwr. Pan fyddwn yn cysylltu â'r awdurdod lleol, byddwn yn gofyn am adroddiad a ddylai roi manylion cryno am brif gryfderau'r darparwr a meysydd i'w datblygu.

Mae'n bosibl bod ysgol annibynnol yn cael cyllid y wladwriaeth ar gyfer disgyblion, er enghraifft y rhai:

- sydd mewn lleoliadau Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant
- sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY)
- sydd dan ofal yr awdurdod lleol

Byddwn yn trefnu i gael briff am yr ysgol gan yr awdurdod lleoli. Pan fydd darpariaeth yn cael ei harolygu gan AGC hefyd, byddwn yn cysylltu'n uniongyrchol â'r sefydliad hwnnw, yn unol â'r protocol.

## Cynllunio'r arolygiad a pharatoi'r tîm

Bydd yr arolygydd cofnodol yn cynllunio'r arolygiad ac yn dyrannu cyfrifoldebau i

aelodau o'r tîm arolygu, gan ystyried blaenoriaethau gwella a nodwyd y darparwr ac unrhyw wybodaeth arall.

Rydym yn gofyn i ddarparwyr roi cynllun llawn o'r holl weithgareddau y bwriedir eu cynnal yn ystod wythnos yr arolygiad yn yr YAR. Bydd yr arolygydd cofnodol yn cynllunio gweithgareddau'r tîm ar sail y wybodaeth sy'n dod i law.

## Yn ystod yr arolygiad

### Y cyfarfod tîm cychwynnol

Mae'r cyfarfod tîm cychwynnol yn debygol o gynnwys:

- briff iechyd a diogelwch gan y darparwr
- briff gan y pennaeth neu'r athro sydd â gofal am gyd-destun yr ysgol / UCD, yn cynnwys effaith y pandemig
- datganiad bras am y sefyllfa gan y pennaeth neu'r athro sydd â gofal, yn amlinellu blaenoriaethau strategol y darparwr a'i chyfnod datblygu presennol
- trafodaeth â'r pennaeth neu'r athro sydd â gofal (dan arweiniad yr ACof) am y blaenoriaethau gwella a nodwyd gan y darparwr, a'r cynnydd yn ei waith gwella hyd yn hyn
- trafodaeth ynghylch sut bydd arolygwyr yn gallu manteisio ar wybodaeth bwysig, er enghraifft cofnodion y corff llywodraethol

Bydd yr ACof yn cadarnhau'r trefniadau hyn â'r pennaeth neu'r athro sydd â gofal yn ystod y galwad ffôn cyn yr arolygiad.

### Casglu ac adolygu tystiolaeth arolygu

Bydd y tîm yn cynllunio'r arolygiad fel y gallant fynd i'r afael â'r gofynion adrodd yn y pum maes arolygu. Mae'r prif fathau o dystiolaeth fel a ganlyn:

- samplau o waith disgyblion
- trafodaethau gyda disgyblion, staff, arweinwyr, rheolwyr, llywodraethwyr, rhieni a phobl eraill
- arsylwi addysgu a gweithgareddau eraill, gan gynnwys tystiolaeth a gasglwyd drwy deithiau dysgu
- ymatebion i'r holiadur cyn-arolygiad
- tystiolaeth ddogfennol neu electronig, e.e. gwybodaeth am gynnydd disgyblion
- gwybodaeth gan yr awdurdod lleol/consortiwm rhanbarthol, lle bo hynny'n briodol

Bydd y tîm yn defnyddio arsylwadau uniongyrchol o waith disgyblion, lle bynnag y bo modd i gasglu tystiolaeth i ategu eu gwerthusiadau. Gall arolygwyr ddethol sampl ychwanegol o waith disgyblion, yn ôl y gofyn, i ategu eu gwerthusiadau o agwedd benodol.

Dylai darparwyr drefnu bod gwybodaeth ar gael i'r tîm arolygu am y safonau a gyflawnir gan ddisgyblion, yn enwedig canlyniadau unrhyw brofion sgrinio ac asesiadau perthnasol eraill. Bydd hyn yn helpu arolygwyr i werthuso cynnydd disgyblion, llunio barn am y safonau mae disgyblion yn eu cyflawni o gymharu â'u mannau cychwyn, a'r ffordd y mae athrawon yn defnyddio'r wybodaeth o asesiadau i ddylanwadu ar eu cynllunio a'u gwersi.

Bydd angen i'r tîm ystyried safbwyntiau rhanddeiliaid am y darparwr a phrofi dilysrwydd y safbwyntiau hynny yn ystod yr arolygiad.

**Cofnodi tystiolaeth arolygu**

Bydd arolygwyr yn llenwi eu ffurflenni tystiolaeth yn electronig fel rhan o system ddigidol Estyn ar gyfer casglu, coladu a chofnodi canfyddiadau arolygu.

**Cyfarfodydd tîm**

Prif ddiben cyfarfodydd tîm yw llunio safbwynt corfforaethol cywir, dibynadwy a dilys am ddysgu ac ansawdd darpariaeth ac arweinyddiaeth. Bydd cyfarfodydd yn cynnig cyfleoedd i arolygwyr:

- brofi dilysrwydd prosesau hunanwerthuso'r darparwr a'i flaenoriaethau ar gyfer gwella
- trafod materion sy'n dod i'r amlwg
- nodi unrhyw fylchau yn y sail dystiolaeth
- ystyried prif ganfyddiadau'r arolygiad ac unrhyw argymhellion

Yn yr ychydig iawn o achosion pan nad y pennaeth yw'r enwebai, mae'n bwysig bod yr arolygydd cofnodol yn cynnal cyfarfod dyddiol byr â'r pennaeth i egluro materion arolygu a chanfyddiadau bras y tîm arolygu sy'n dod i'r amlwg

**Deialog broffesiynol**

Trwy gydol yr arolygiad, bydd arolygwyr yn cynnal deialog broffesiynol ag ymarferwyr. Gallai'r deialog hon gynnwys cyfarfod ag athrawon unigol, yn aml yn eu hystafelloedd dosbarth, i drafod sut maent yn cynllunio ac yn asesu gwaith disgyblion. Efallai y bydd arolygwyr am gyfarfod â grwpiau o staff cymorth i ddeall trefniadau'r ysgol i gefnogi disgyblion ag ADY. Gallai arolygwyr benderfynu cyfarfod ag arweinwyr, naill ai'n unigol neu fel grŵp, i ddeall effaith arweinyddiaeth y darparwr ar wella deilliannau disgyblion.

Mae deialog broffesiynol yn galluogi arolygwyr i gael tystiolaeth uniongyrchol gan ymarferwyr, y gellir ei thriongli â ffynonellau eraill o dystiolaeth. Bydd y ddeialog yn darparu canfyddiadau dros dro, sy'n dod i'r amlwg, ar agweddau ar sail y dystiolaeth. Gellir diwygio'r canfyddiadau hyn ar ôl myfyrio arnynt, er enghraifft ar ôl craffu ar waith disgyblion neu siarad â disgyblion, neu o ganlyniad i safoni o fewn y tîm.

Fel arfer, ar ôl arsylwi gwers, bydd arolygwyr yn cynnal deialog broffesiynol fer â'r aelod staff am y dysgu a welwyd. Mewn rhai achosion, efallai y bydd angen cynnal y drafodaeth hon yn ddiweddarach yn yr arolygiad.

Dylai prif ffocws y ddeialog broffesiynol bob amser fod ar y disgyblion, y cynnydd a wneir ganddynt yn ystod y wers, a'r safonau a gyflawnir ganddynt. Dylai arolygwyr geisio canolbwyntio ar unrhyw gryfderau neu feysydd i'w datblygu mewn perthynas â'r gwaith penodol a welwyd.

Oherwydd natur teithiau dysgu, sydd â ffocws craff, a lledaeniad y gweithgarwch ar draws nifer o wersi/dosbarthiadau mewn cyfnod cymharol fyr, ni fydd modd i arolygwyr gynnig deialog broffesiynol i athrawon unigol ar ôl gweithgarwch taith ddysgu.

## Adborth ffurfiol

Ar ddiwedd y rhan o'r arolygiad ar y safle, bydd y tîm yn rhoi adborth llafar i uwch arweinwyr. Yn ychwanegol:

- Dylai ysgolion a gynhelir ac UCDau wahodd cynrychiolydd o'r corff llywodraethol neu'r pwyllgor rheoli, ac un cynrychiolydd naill ai o'r awdurdod lleol neu'r consortiwm rhanbarthol i fynychu'r cyfarfod.
- Mewn ysgolion ffydd, gallai'r ysgol wahodd cynrychiolydd o'r awdurdod esgobaethol lleol hefyd.
- Mewn ysgolion annibynnol, dylid gwahodd y perchennog i'r cyfarfod.
- Efallai yr hoffai ysgolion arbennig annibynnol wahodd cynrychiolwyr o awdurdodau lleoli sy'n lleoli disgyblion yn yr ysgol.

Dylai'r adborth ganolbwyntio ar brif ganfyddiadau'r arolygiad, gan gynnwys yr argymhellion, a'r prif werthusiadau o bob un o'r pum maes arolygu.

Mae'r cyfarfod adborth yn cynnig cyfle i arweinwyr a rheoli glywed a myfyrio ar ganfyddiadau'r tîm. Dylai'r adborth ganolbwyntio ar y cryfderau a'r meysydd i'w gwella, a'r ffactorau sy'n cyfrannu atynt. Dylai'r arolygydd cofnodol esbonio wrth y darparwr y gellir codi materion a'u trafod, ac y gellir cywiro materion ffeithiol. Diben y cyfarfod yw i'r darparwr ddeall canfyddiadau'r tîm arolygu yn hytrach na'u cydymdrafod.

Yn ystod yr arolygiad, bydd y tîm yn ystyried a oes unrhyw arfer effeithiol sy'n werth ei rhannu â darparwyr eraill. Yn yr achosion hyn, bydd yr arolygydd cofnodol yn gofyn i'r darparwr baratoi astudiaeth achos (neu astudiaethau – uchafswm o ddwy ohonynt) i'w lledaenu ar ein gwefan.

Yn ystod pob arolygiad craidd, bydd y tîm arolygu'n ystyried a oes angen gweithgarwch dilynol ar y darparwr. Bydd yr arolygydd cofnodol yn rhoi gwybod i arweinwyr os oes angen unrhyw weithgarwch dilynol.

Mae'r holl werthusiadau a chanfyddiadau sy'n cael eu crybwyll yn ystod arolygiad, gan gynnwys lefel y gweithgarwch dilynol, os yw hynny'n briodol, yn rhai dros dro ac yn amodol ar gael eu safoni a'u dilysu gan PAEM. Maent yn gyfrinachol i staff a llywodraethwyr neu reolwyr y ddarpariaeth. Ni ddylid eu cyfleu y tu hwnt i'r grŵp hwn, gan gynnwys drwy gyfryngau cymdeithasol, nes i ni gyhoeddi'r adroddiad ar ein gwefan.

## Cwynion am y modd y cynhaliwyd yr arolygiad

Os bydd unrhyw faterion yn ymwneud â'r modd y cynhaliwyd yr arolygiad yn gyffredinol neu ymddygiad arolygwyr unigol, dylai'r enwebai godi'r rhain yn uniongyrchol â'r arolygydd cofnodol, a hynny cyn gynted ag y bo modd. Ni ddylai'r enwebai aros tan ar ôl yr arolygiad; dylai godi unrhyw faterion tra bod y tîm ar y safle. Ambell waith, bydd materion yn codi o ganlyniad i gamddealltwriaeth ac, fel arfer, gellir datrys y rhain yn gyflym ac yn foddhaol yn fuan wedi iddynt ddigwydd.

Ceir arweiniad ar ein gweithdrefnau ar gyfer ymdrin â chwynion ar ein gwefan.

## Ar ôl yr arolygiad

### Yr adroddiad arolygu

Mae'r arolygydd cofnodol yn gyfrifol am lunio adroddiad arolygu terfynol sy'n glir i gynulleidfa leyg ac yn ddefnyddiol i'r darparwr.

Wrth ysgrifennu adroddiadau, dylai arolygwyr ystyried arweiniad ysgrifennu Estyn, sydd ar gael ar ein gwefan, sef www.estyn.llyw.cymru.

Byddwn yn cyhoeddi adroddiadau'n ddwyieithog lle mae ysgolion wedi gofyn i ni wneud hynny, yn unol â'n Polisi Iaith Gymraeg.

Rydym yn seilio strwythur yr adroddiad arolygu ar ein fframwaith arolygu. Bydd yr adroddiad ar y ffurf ganlynol:

**Ynglŷn â'r ysgol neu'r UCD**

**Trosolwg o'r prif ganfyddiadau**

**Argymhellion**

**Beth sy'n digwydd nesaf**

**Prif werthusiadau**

1 Dysgu
2 Lles ac agweddau at ddysgu
3 Addysgu a phrofiadau dysgu
4 Gofal, cymorth ac arweiniad
5 Arweinyddiaeth a rheolaeth

**Sail dystiolaeth yr arolygiad**

Byddwn yn llunio'r adroddiad cyn pen graddfeydd amser statudol.

## Gwirio cywirdeb ffeithiol

Byddwn yn rhoi drafft hwyr o'r adroddiad i'r darparwr er mwyn helpu gwirio cywirdeb ffeithiol y cynnwys. Fel arfer, bydd gan y darparwr bum niwrnod gwaith i ystyried yr adroddiad drafft a nodi unrhyw wallau.

Mae'r gwiriad yn canolbwyntio ar ddatrys unrhyw anghywirdeb ffeithiol yn yr adroddiad arolygu. Nid yw'n canolbwyntio ar y canfyddiadau. Ceir arweiniad pellach i ddarparwyr ar natur a chwmpas y gwiriad hwn ar ein gwefan.

## Sicrhau ansawdd arolygiadau

Rydym wedi ymrwymo i:

- ddethol, hyfforddi, briffio, cefnogi a lleoli arolygwyr yn effeithiol, gan gynnwys arolygwyr cymheiriaid ac arolygwyr lleyg
- hyfforddiant, briffio a chymorth effeithiol i alluogi'r enwebai i ymgymryd â rôl weithredol
- deialog reolaidd â'r pennaeth neu'r athro sydd â gofal yn ystod arolygiad
- meini prawf a systemau cofnodi sy'n cydymffurfio ag arweiniad arolygu
- adolygu a dadansoddi tystiolaeth yn ofalus
- darparu adborth llafar clir ar brif ganfyddiadau'r tîm a'r manylion ar gyfer pob maes arolygu
- llunio adroddiadau cywir ac wedi'u cyflwyno'n dda

Fel rhan o'n gweithdrefnau sicrhau ansawdd, rydym yn gwahodd darparwyr i lenwi holiadur ôl-arolygiad (HOA). Bydd yr holiadur ar gael yn yr YAR. Dylai darparwyr lenwi'r rhan gyntaf o'r HOA cyn gynted ag y bo modd ar ôl yr arolygiad ar y safle, a'i gyflwyno'n electronig i Estyn drwy system yr YAR. Gallant lenwi ail ran yr HOA ar ôl i'r adroddiad arolygu gael ei gyhoeddi, eto drwy system yr YAR.

Yr arolygydd cofnodol fydd yn sicrhau ansawdd gwaith y tîm arolygu yn y lle cyntaf. Rydym yn sicrhau ansawdd sampl o arolygiadau drwy ymweliadau ar y safle. Rydym yn sicrhau ansawdd yr holl adroddiadau arolygu cyn eu cyhoeddi ar ein gwefan. Mae ein trefniadau ar gyfer sicrhau ansawdd arolygiadau ar gael ar ein gwefan www.estyn.llyw.cymru.

## Rhan 2: Arweiniad ar weithgarwch dilynol

Mae’r arweiniad hwn yn nodi’r camau y dylai timau arolygu mewn ysgolion a gynhelir ac UCDau eu cymryd i’w helpu i nodi’r lefel gweithgarwch dilynol fwyaf priodol. Bydd yn ddefnyddiol i ysgolion ac UCDau ddeall y gweithdrefnau hyn a’r ffactorau y bydd timau arolygu yn eu hystyried wrth benderfynu ar y lefel gweithgarwch dilynol fwyaf priodol.

Mae’r arweiniad hwn yn hyblyg gan fod angen i ni fod yn ymatebol i amrywiaeth eang o sefyllfaoedd sy’n codi mewn ysgolion / UCDau wrth iddynt wella ar ôl arolygiadau craidd. Rydym yn cadw’r hawl i addasu’r arweiniad hwn i fodloni anghenion ysgolion / UCDau penodol.

### Arweiniad i arolygwyr ar roi ysgol a gynhelir neu UCD mewn categori gweithgarwch dilynol

#### Cefndir

Yn ystod pob arolygiad craidd, bydd y tîm arolygu yn ystyried a oes angen unrhyw weithgarwch dilynol ar yr ysgol neu’r UCD.

Mae tri math o weithgarwch dilynol:

1 **Mesurau arbennig**
2 **Gwelliant sylweddol**
3 **Adolygu gan Estyn**[1]

Mae mesurau arbennig a gwelliant sylweddol yn gategorïau statudol sy’n berthnasol i ysgolion ac UCDau sy’n peri pryder, fel y’i diffinnir gan Ddeddf Addysg 2005 ac unrhyw gylchlythyrau cysylltiedig. Mae gan Estyn ddyletswydd i roi gwybod i’r Gweinidog Addysg a swyddogion Llywodraeth Cymru pan fydd ysgolion yn cael eu rhoi yn y categorïau hyn. Byddwn yn rhoi gwybod iddynt am gynnydd dilynol ar ôl arolygiadau monitro, fel sy’n ofynnol gan y ddeddfwriaeth.

Mae’r diffiniad o ysgol y mae angen mesurau arbennig arni a’r diffiniad o ysgol y mae angen gwelliant sylweddol arni i’w gweld yn adran 44 Deddf Addysg 2005.

Mae mesurau arbennig a gwelliant sylweddol yn mynnu gweithgarwch monitro gan Arolygwyr Estyn, a fydd yn ymweld â’r ysgol neu’r UCD i werthuso’r cynnydd. Os bydd angen cymorth ychwanegol gan yr awdurdod lleol ar ysgol neu UCD, bydd Estyn yn nodi hynny drwy’r adroddiad.

Mae’r un prosesau sicrhau ansawdd yn berthnasol i waith dilynol ac i arolygiadau craidd, fel ei gilydd. Yr unig farn yr adroddir arni yn ystod unrhyw ymweliad monitro yw p’un a oes angen gweithgarwch dilynol ar yr ysgol o hyd ai peidio. Mae’r

[1] Mae Adolygu gan Estyn yn parhau i ysgolion sy’n cael eu harolygu o dan y fframwaith arolygu presennol tan fis Medi 2024. Wedi hynny, bydd Estyn yn adolygu cynnydd ysgolion sy’n cael eu Hadolygu gan Estyn ar hyn o bryd, ond ni fyddant yn gosod rhagor o ysgolion yn y lefel hon o weithgarwch dilynol.

penderfyniad hwn yn un dros dro ac yn destun safoni gan PAEM. Mae'n gyfrinachol i'r ysgol nes i'r adroddiad gael ei gyhoeddi.

**Arweiniad i arolygwyr ar ysgolion sy'n peri pryder ac y gall fod angen eu rhoi mewn categori statudol**

Yn unol â deddfwriaeth bresennol, yn ystod **pob** arolygiad, dylai arolygwyr ystyried a oes angen rhoi mesurau arbennig ar waith yn yr ysgol drwy ystyried:

- os yw'r ysgol yn methu cynnig safon dderbyniol o addysg i'w disgyblion
- os nad yw'r unigolion sy'n gyfrifol am arwain, rheoli neu lywodraethu'r ysgol yn dangos y gallu i sicrhau'r gwelliant angenrheidiol yn yr ysgol

Rhaid i arolygwyr ystyried a oes gan yr ysgol y gallu i wella cyn llunio barn ynghylch a oes angen mesurau arbennig arni neu beidio. Os byddant yn dod i'r casgliad nad oes angen mesurau arbennig ar yr ysgol, dylent wedyn ystyried a oes angen gwelliant sylweddol ar yr ysgol. Rhaid i arolygwyr ystyried:

- a yw'r ysgol yn perfformio'n sylweddol islaw'r hyn y gellid disgwyl iddi berfformio'n rhesymol dan yr holl amgylchiadau

Rhaid i'r tîm arolygu adrodd fel y gwêl, a gallu cadarnhau ei farnau ar sail tystiolaeth gadarn. Nid yw barnu bod angen mesurau arbennig neu welliant sylweddol ar ysgol yn dasg hawdd, ond **ni** ddylid ei hosgoi. Os daw'r dystiolaeth i'r casgliad bod angen mesurau arbennig neu welliant sylweddol ar yr ysgol, rhaid i adolygwyr lunio'r farn honno.

**1 Mesurau arbennig**

Dywed adran 44 Deddf Addysg 2005, 'bydd angen mesurau arbennig mewn perthynas ag ysgol os:

(a) nad yw'r ysgol yn cynnig addysg o safon dderbyniol i'w disgyblion, ac
(b) os nad yw'r unigolion sy'n gyfrifol am arwain, rheoli neu lywodraethu'r ysgol yn dangos y gallu i sicrhau'r gwelliant angenrheidiol yn yr ysgol'.

Mae ysgolion y nodi bod angen **mesurau arbennig** arnynt yn ystod arolygiad craidd yn debygol o fod â llawer o ddiffygion pwysig yn eu gwaith. Efallai y bydd gan rai ohonynt ychydig o feysydd pwysig i'w gwella i raddau nodedig iawn, neu lawer o feysydd i'w gwella i raddau llai. Yn y rhan fwyaf o achosion, pwysau ac effaith gronnus cyfuniad o'r meysydd hyn i'w gwella fydd, o edrych arnynt gyda'i gilydd, yn sbarduno'r penderfyniad nad yw ysgol yn cynnig addysg o safon dderbyniol. Er bod un nodwedd ar ei phen ei hun yn annhebygol o arwain at benderfyniad bod angen mesurau arbennig ar ysgol, pan fydd arolygwyr yn dod o hyd i safonau isel ac addysgu a dysgu gwael, risgiau sylweddol i ddisgyblion neu'r tebygolrwydd y bydd disgyblaeth yn methu, bydd angen mesurau arbennig ar yr ysgol, fel arfer.

Rhaid i arolygwyr ystyried yn ofalus hefyd a yw'r unigolion sy'n gyfrifol am arwain, rheoli neu lywodraethu'r ysgol yn dangos y gallu i sicrhau'r gwelliant angenrheidiol yn yr ysgol. Wrth farnu a yw'r gallu gan uwch reolwyr i sicrhau gwelliannau, bydd angen i arolygwyr roi sylw i ba mor dda mae'r unigolion hyn yn gwybod ac yn deall

cryfderau a gwendidau'r ysgol. Hefyd, dylai arolygwyr gadarnhau a yw uwch reolwyr yn dangos y gallu i fynd i'r afael â'r gwendidau drwy'r ymdeimlad o bwrpas a chyfeiriad a ddarperir ganddynt. Dylai trafodaethau ag uwch reolwyr gynnig tystiolaeth o sut maent yn mynd i'r afael â'r materion hyn ac a ydynt yn rhoi sylw i'r pethau cywir. Dylai uwch reolwyr allu dangos eu bod yn gwybod pa ansawdd o waith maent yn ei ddisgwyl gan ddysgwyr a'r rhai maent yn eu rheoli, a'u bod yn gallu cyfleu'r disgwyliadau hynny i'w cydweithwyr.

Dylai arolygwyr hefyd ystyried pa mor dda y mae llywodraethwyr yn deall materion sy'n effeithio ar berfformiad yr ysgol. Dylent werthuso pa mor dda maent yn defnyddio'r wybodaeth a ddarperir gan arweinwyr i wneud penderfyniadau effeithiol a phriodol. Dylai arolygwyr ystyried a yw llywodraethwyr yn bodloni'r dyletswyddau a osodwyd arnynt gan ddeddfwriaeth addysgol a deddfwriaeth arall.

**Rhaid i arolygwyr roi ystyriaeth benodol i nodi bod angen mesurau arbennig ar yr ysgol pan fydd diffygion pwysig ym maes arolygu 5, sef arweinyddiaeth a rheolaeth.**

Ar bob adeg, dylai arolygwyr gofio bod y prif bwyslais mewn arolygiadau ysgol ar y cynnydd a wna disgyblion o'u mannau cychwyn, y safonau maent yn eu cyflawni a'u lefelau lles. Dylai'r agweddau uchod gael eu trafod fel mater o bwys mewn cyfarfodydd tîm. Dylai trafodaethau arolygwyr ystyried unrhyw ffactorau lliniarol er mwyn sicrhau dilysrwydd a dibynadwyedd barnau cyn dod i benderfyniad bod angen mesurau arbennig ar ysgol neu beidio.

Efallai y bydd yn ddefnyddiol i arolygwyr ddefnyddio'r cwestiynau isod hefyd i'w helpu i farnu a oes angen mesurau arbennig ar ysgol neu beidio. Ni fyddai angen ateb yn gadarnhaol i bob un o'r cwestiynau i arwain at benderfynu bod angen mesurau arbennig ar ysgol.

### Cyffredinol

- A yw'r ysgol yn methu cynnig safon dderbyniol o addysg i'w disgyblion?
- A yw'r arweinwyr a'r rheolwyr yn dangos gallu annigonol i sicrhau gwelliant angenrheidiol?

### Deilliannau (MA 1 a 2)

- A yw cyflawniad disgyblion heb fod cystal â'r hyn a fyddai fel arfer yn ddisgwyliedig?
- A yw disgyblion yn gwneud cynnydd annigonol o ran caffael gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau llythrennedd a rhifedd?
- A yw disgyblion yn aflonyddu'n rheolaidd?
- A oes gan gyfran sylweddol o ddisgyblion neu grŵp penodol o ddisgyblion bresenoldeb gwael?
- A yw lefel y gwaharddiadau'n uchel?
- A yw disgyblion yn brin o gymhelliant ac yn dangos agweddau negyddol tuag at waith?
- A oes unrhyw ddisgyblion mewn perygl corfforol neu emosiynol gan ddisgyblion eraill neu oedolion yn yr ysgol?
- A oes unrhyw dystiolaeth o lefelau sylweddol o densiwn hiliol neu aflonyddu ar grwpiau sy'n agored i niwed neu grwpiau lleiafrifol?

**Darpariaeth (MA 3 a 4)**

- A oes cyfran uchel o addysgu aneffeithiol?
- A yw disgwyliadau athrawon o ran cyflawniad disgyblion yn rhy isel?
- A yw'r cwricwlwm yn methu ennyn diddordeb grwpiau o ddisgyblion?
- A yw'r berthynas rhwng staff a disgyblion, a rhwng y disgyblion eu hunain, yn wael?
- A yw'r ysgol yn methu o ran paratoi disgyblion ar gyfer bywyd fel oedolion, gan gynnwys byd gwaith, lle bo hynny'n briodol?
- A yw'r ysgol yn methu hyrwyddo lles ei disgyblion?
- A oes diffygion difrifol yn narpariaeth yr ysgol i ddiogelu disgyblion, er enghraifft o ran mynd i'r afael ag unrhyw fwlio tybiedig neu ymddygiad gwael?
- A yw gwendidau yn narpariaeth yr ysgol yn golygu bod disgyblion mewn perygl corfforol neu emosiynol gan ddisgyblion eraill neu oedolion yn yr ysgol.

**Arweinyddiaeth (MA 5)**

- A yw arweinwyr wedi cael effaith gyfyngedig ar gyflawni cynnydd clir a chynaledig?
- A yw'r llywodraethwyr yn dwyn yr ysgol i gyfrif â chadernid annigonol?
- A yw'r prosesau hunanwerthuso yn brin o gywirdeb a thrylwyredd, gan roi darlun rhy hael i'r ysgol o gynnydd disgyblion ac ansawdd yr addysgu?
- A yw prosesau cynllunio gwelliant yn brin o eglurder a manwl gywirdeb, ac yn aneffeithiol o ran sicrhau gwelliant?
- A yw arweinwyr yn cael effaith gyfyngedig o ran mynd i'r afael â gwendidau pwysig mewn perfformiad?
- A yw rheolaeth wael dros adnoddau ac adeiladau yn atal cynnydd addysgol yn ddifrifol?

Rhaid i'r tîm arolygu fod yn glir ynghylch pam y mae o'r farn bod angen mesurau arbennig ar ysgol benodol.

**Gweithdrefnau i'w dilyn os bernir bod angen mesurau arbennig ar ysgol**

Dylai arolygwyr adrodd ar eu penderfyniad gan ddefnyddio'r geiriad rhagnodedig, a rhaid iddynt ddilyn y gweithdrefnau penodol a amlinellir isod.

Os bernir bod angen mesurau arbennig ar yr ysgol, dylai'r ACof gymryd y camau canlynol:

- ffonio a rhoi gwybod i'r cydlynydd arolygu priodol yn Estyn (rhif ffôn: 02920 446446) cyn rhoi gwybod i'r ysgol am y farn, a heb fod yn hwyrach na diwedd yr arolygiad yn yr ysgol:
  1) rhoi gwybod i'r pennaeth neu'r athro sydd â gofal ar lafar fod diffygion difrifol ym mherfformiad a gallu'r ysgol, ym marn y tîm arolygu, a rhestru'r diffygion hynny
  2) esbonio ei bod yn debygol y bernir bod angen mesurau arbennig ar yr ysgol, a bod angen nawr i'r tîm adolygu'r dystiolaeth
  3) atgoffa'r uwch reolwyr am yr angen i sicrhau cyfrinachedd ynghylch canfyddiadau posibl y tîm

- yn yr adroddiad llafar i'r uwch reolwyr, dywedwch fod y tîm wedi barnu nad yw'r ysgol yn cynnig safon dderbyniol o addysg, ac esboniwch yn ofalus y rhesymau am y farn hon. Gellid defnyddio'r geiriad canlynol:

  'Rwyf o'r farn bod angen mesurau arbennig mewn perthynas â'r ysgol hon oherwydd ei bod yn methu cynnig safon dderbyniol o addysg i'w disgyblion, ac mae diffyg gallu ymhlith uwch arweinwyr i sicrhau'r gwelliannau angenrheidiol. Yn unol â Deddf Addysg 2005, byddaf yn anfon adroddiad drafft at PAEM ac yn aros am ei farn ynghylch a yw'n cytuno neu'n anghytuno bod angen mesurau arbennig ar yr ysgol hon.'

Dylai'r ACof fod yn barod i gyfiawnhau'r farn, a nodi unrhyw faterion ffeithiol yr hoffai'r uwch reolwyr eu cyflwyno. Dylai'r ACof ei gwneud yn glir i'r uwch reolwyr ac unrhyw lywodraethwr neu swyddog o'r ALl sy'n bresennol:

- mai ei farn ef/barn hi yw'r farn hon, a bod y tîm o'r un farn
- yn unol â Deddf Addysg 2005, bydd yr ACof yn hysbysu PAEM
- rhaid i PAEM ddatgan a yw'n cytuno neu'n anghytuno â'r farn
- os bydd PAEM yn cytuno â'r farn, bydd yr ysgol yn destun mesurau arbennig
- y gallai fod oedi cyn cyhoeddi'r adroddiad oherwydd yr amgylchiadau, ond mai'r oedi mwyaf yw tri mis o'r adeg cyflwyno disgwyliedig

**Adroddiadau a chrynodebau ar gyfer ysgolion y mae angen mesurau arbennig arnynt**

Rhaid i'r ACof ei gwneud yn glir yn y FfF Adrodd nad yw'r ysgol, yn ei farn ef/barn hi, yn cynnig safon dderbyniol o addysg ac nad oes gan uwch reolwyr y gallu i sicrhau'r gwelliant angenrheidiol (hynny yw, bod angen mesurau arbennig arni). Rhaid i'r ACof hefyd ei gwneud yn glir beth yw'r diffygion a arweiniodd at y farn honno. Dylai'r sail dystiolaeth ar gyfer yr arolygiad gadarnhau'r farn yn llawn.

Bydd PAEM, neu AEM yn gweithredu ar ran PAEM, yn craffu ar dystiolaeth o'r arolygiad (yn y FfF Adrodd) i wirio'r farn. Mae gan PAEM bŵer i alw am unrhyw wybodaeth arall sy'n ofynnol.

Gallai Estyn ymweld â'r ysgol ymhen tair wythnos i gadarnhau'r farn bod angen mesurau arbennig ar yr ysgol, ond ni fydd hyn yn angenrheidiol fel arfer. Diben yr ymweliad hwn fydd:

- arolygu'r agweddau hynny ar yr ysgol lle daeth arolygwyr o hyd i ddiffygion
- penderfynu ar ddilysrwydd ei farnau
- gwirio eu bod wedi cynnal yr arolygiad yn briodol

Os yw PAEM, ar ôl cwblhau'r gweithdrefnau sicrhau ansawdd, yn **cytuno** â'r farn bod yr ysgol yn methu cynnig safon dderbyniol o addysg i'w disgyblion ac nad yw'r gallu gan uwch arweinwyr i wneud y gwelliannau angenrheidiol, bydd yr adroddiad yn datgan:

'Yn unol â Deddf Addysg 2005, mae PAEM o'r farn bod angen gweithredu mesurau arbennig mewn perthynas â'r ysgol hon'.

Os yw PAEM yn **anghytuno** â barn yr ACof, bydd yr adroddiad yn datgan:

'Yn unol â Deddf Addysg 2005, rwyf fi o'r farn, ond mae PAEM yn anghytuno, bod angen gweithredu mesurau arbennig mewn perthynas â'r ysgol hon.'

Cyn cyhoeddi'r adroddiad, byddwn yn ysgrifennu llythyr o gadarnhad at yr ysgol, ynghyd â chopi i'r awdurdod lleol yn esbonio'r canlynol:

- bod yr ysgol wedi'i rhoi ar restr yr ysgolion y mae angen mesurau arbennig arnynt
- y dylai'r ysgol gydweithio â'r awdurdod lleol i fynd i'r afael â'r gwendidau
- y bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol yn rheolaidd, sef bob pedwar i chwe mis fel arfer

Mae gan PAEM ddyletswydd i roi gwybod i'r Ysgrifennydd Cabinet dros Addysg a'r awdurdod lleol bod angen mesurau arbennig ar yr ysgol neu'r UCD.

**Ymweliadau monitro ag ysgolion yn y categori mesurau arbennig**

Gofynnwn i'r ysgol a'r ALl gydweithio i greu cynllun gweithredu ôl-arolygiad (CGOA) unedig. Dylid anfon hwn i Estyn cyn pen 20 diwrnod gwaith o gyhoeddi'r adroddiad. Yn ymarferol, byddwn yn cysylltu cyn hyn fel arfer i gynnig ein cymorth i'r ysgol.

Bydd ymweliad y CGOA yn ymweliad diwrnod, fel arfer. Bydd yr ymweliad yn ategu ein gwerthusiad ffurfiol o'r CGOA unedig (cynllun yr ysgol a datganiad gweithredu'r awdurdod lleol gynt). Byddwn yn trafod y cynlluniau ag arweinwyr yr ysgol, llywodraethwyr a chynrychiolwyr yr awdurdod lleol. Gyda'n gilydd, byddwn yn sicrhau bod y cynllun yn ddigon cadarn i fynd i'r afael â'r argymhellion a amlygwyd yn yr adroddiad fel mater o frys. Pan fyddwn yn barnu bod y cynllun yn bodloni'r gofynion, dylai'r ysgol a'r awdurdod lleol sicrhau eu bod yn anfon copi o'r ddogfen i Lywodraeth Cymru.

Bydd ymweliadau dilynol yn para deuddydd, fel arfer. Cânt eu cynnal o leiaf bob chwe mis, a gellir eu cynnal bob tymor. Byddwn yn ymgymryd ag ystod o weithgarwch arolygu, a all gynnwys ymweld â dosbarthiadau, siarad â staff a disgyblion neu ystyried deilliannau holiaduron, cyfweld â llywodraethwyr ac uwch arweinwyr, ystyried gwaith disgyblion a dogfennau eraill.

Fel arfer, bydd pob ymweliad yn canolbwyntio ar y cynnydd a wnaed gan yr ysgol tuag at fynd i'r afael â sampl o argymhellion. Dros gyfnod o 12 mis, byddwn fel arfer yn gwerthuso cynnydd yn erbyn pob un o'r argymhellion. Mae'n debygol y bydd argymhellion allweddol yn cael eu gwerthuso fwy nag unwaith cyn bod yr ysgol yn barod i'w thynnu o'r categori mesurau arbennig.

Ar ddiwedd pob ymweliad, byddwn yn barnu p'un a oes angen mesurau arbennig ar yr ysgol o hyd ai peidio. Os yw'r cynnydd yn annigonol, bydd angen mesurau arbennig ar yr ysgol o hyd. Byddwn yn parhau i gynnal ymweliadau monitro nes bydd PAEM yn penderfynu bod yr ysgol wedi gwella digon i'w thynnu o'r categori mesurau arbennig.

Os byddwn yn pryderu bod y cynnydd tuag at dynnu ysgol o'r categori mesurau arbennig yn rhy araf, efallai byddwn yn trefnu ymweliad ychwanegol. Gallwn gyfarfod ag arweinwyr yr ysgol a chynrychiolwyr o'r awdurdod lleol a'r consortiwm rhanbarthol i ystyried a yw'r camau gweithredu a gynlluniwyd gan yr ysgol, a'r cymorth y mae'r ysgol yn ei gael, yn addas i'r diben. Byddwn yn rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru pa bryd bynnag y bydd gennym bryderon am gyflymder cynnydd yr ysgol.

Tra bydd ysgol yn y categori mesurau arbennig, ni chaiff llywodraethwyr na'r awdurdod lleol benodi unrhyw athrawon newydd gymhwyso (ANG neu RhAG) i'r staff heb ofyn am ganiatâd gennym ni.

Pan fydd y tîm o'r farn bod yr ysgol wedi gwneud cynnydd digonol, byddwn yn argymell i PAEM y dylid ei thynnu oddi ar restr yr ysgolion y mae angen mesurau arbennig arnynt. Byddwn yn cyhoeddi adroddiad byr ar ein gwefan yn esbonio ein penderfyniad.

**Cynadleddau gwella i ysgolion yn y categori mesurau arbennig**

Pan fyddwn yn nodi bod cynnydd ysgol wrth fynd i'r afael â'r argymhellion o'i harolygiad craidd yn rhy araf, efallai byddwn yn penderfynu cynnal cynhadledd wella. Bydd hyn yn cynnwys trafodaeth undydd 'o gwmpas y bwrdd' rhwng arolygwyr, uwch arweinwyr, llywodraethwyr a chynrychiolwyr o'r awdurdod lleol a'r consortiwm rhanbarthol.

Bydd y gynhadledd yn canolbwyntio ar y canlynol:

- Y cynnydd a wnaed gan yr ysgol ers yr arolygiad craidd
- Rhwystrau rhag cynnydd pellach
- Adolygu'r CGOA a datganiad gweithredu'r awdurdod lleol, a nodi lle y mae angen eu cryfhau a/neu eu diweddaru

## 2 Gwelliant sylweddol

Mae ysgolion y mae angen **gwelliant sylweddol** yn debygol o fod â llai o feysydd pwysig i'w gwella nag ysgolion y mae angen mesurau arbennig arnynt. Os yw arolygwyr wedi ystyried o ddifrif, ond wedi gwrthod, y farn bod angen mesurau arbennig ar yr ysgol, mae'n debygol iawn y bydd yn disgyn i'r categori i ysgolion y mae angen gwelliant sylweddol arnynt.

Er y gallai ysgol yn y categori hwn fod yn cynnig addysg sydd bron â bod o safon dderbyniol, mae'n bwysig bod y tîm arolygu'n ystyried a oes lle ar gyfer **gwelliant sylweddol**. Rhaid i'r egwyddor arweiniol fod a yw'r ysgol yn perfformio'n sylweddol islaw'r hyn y gellid disgwyl iddi berfformio dan yr holl amgylchiadau.

Rhaid i arolygwyr roi ystyriaeth benodol i nodi bod angen gwelliant sylweddol ar yr ysgol os oes diffygion sylweddol mewn un neu ragor o feysydd arolygu, neu feysydd pwysig i'w gwella mewn nifer o'r meysydd arolygu.

Ar bob adeg, dylai arolygwyr gofio bod y prif bwyslais mewn arolygiadau ysgol ar y cynnydd a wna disgyblion o'u mannau cychwynnol, y safonau maent yn eu cyflawni a'u lefelau lles. Dylai trafodaethau arolygwyr ystyried unrhyw ffactorau lliniarol er

mwyn sicrhau dilysrwydd, cywirdeb a dibynadwyedd barnau cyn penderfynu bod angen gwelliant sylweddol ar ysgol.

Dan yr holl amgylchiadau, mae'n hanfodol bod arolygwyr yn barnu gwaith yr ysgol yn y cyd-destun y mae'n gweithredu ynddo ar hyn o bryd. **Ni ddylai** arolygwyr gael eu dylanwadu'n ormodol gan:

- gynlluniau ar gyfer gwella a baratowyd yn ddiweddar ond nad ydynt wedi cael eu rhoi ar waith eto
- penodi staff yn ddiweddar, fel pennaeth newydd

Y rheswm am hyn, yn y ddau achos uchod, yw na fydd effaith y gwelliannau wedi digwydd eto. Rhaid i arolygwyr farnu perfformiad a deilliannau cyfredol yr ysgol, yn hytrach na bwriadau da ac agwedd ddyheadol.

**Gweithdrefnau i'w dilyn os oes angen gwelliant sylweddol ar ysgol**

Os bernir bod angen gwelliant sylweddol ar yr ysgol, dylai'r arolygydd cofnodol (ACof)

- ffonio a rhoi gwybod i'r cydlynydd arolygu priodol yn Estyn (rhif ffôn: 02920 446446) cyn rhoi gwybod i'r ysgol / UCD am y farn, a heb fod yn hwyrach na diwedd yr arolygiad yn yr ysgol
- dweud wrth y pennaeth neu'r athro sydd â gofal ac unrhyw lywodraethwr a chynrychiolydd yr ALl sy'n bresennol ar ddiwedd yr arolygiad bod y tîm wedi dod i'r farn bod angen gwelliant sylweddol ar yr ysgol

Bydd PAEM, neu AEM yn gweithredu ar ran PAEM, yn craffu ar dystiolaeth o'r arolygiad (yn yr YAR) i sicrhau ansawdd gwerthusiadau'r tîm. Mae gan PAEM bŵer i alw am unrhyw wybodaeth bellach sydd ei hangen.

**Adroddiadau a chrynodebau ar gyfer ysgol y mae angen gwelliant sylweddol arni**

Os yw PAEM, ar ôl cwblhau'r gweithdrefnau sicrhau ansawdd, yn **cytuno** â barn yr ACof, bydd yr adroddiad yn datgan: 'Yn unol â Deddf Addysg 2005, mae PAEM o'r farn bod angen gwelliant sylweddol ar yr ysgol/UCD hon'.

Os yw PAEM yn **anghytuno** â barn yr ACof, bydd yr adroddiad yn datgan: 'Yn unol â Deddf Addysg 2005, rwyf fi o'r farn, ond mae PAEM yn anghytuno, bod angen gwelliant sylweddol ar yr ysgol/UCD hon'.

Cyn cyhoeddi'r adroddiad, byddwn yn ysgrifennu llythyr o gadarnhad at yr ysgol neu'r UCD, ynghyd â chopi i'r awdurdod lleol, yn esbonio'r canlynol:

- bod yr ysgol neu'r UCD wedi'i rhoi ar restr yr ysgolion y mae angen gwelliant sylweddol arnynt
- y dylai'r ysgol neu'r UCD gydweithio â'r awdurdod lleol i fynd i'r afael â'r gwendidau
- bydd arolygwyr yn ymweld â'r ysgol neu'r UCD, yn ystod y tymor ar ôl cyhoeddi'r adroddiad fel arfer, i werthuso a yw cynllun gweithredu ôl-arolygiad (CGOA) yr

ysgol neu'r UCD ac, ar gyfer ysgolion yn unig, datganiad gweithredu'r awdurdod lleol, yn ddigon cadarn i ysgogi'r gwelliannau gofynnol

- tua 12-18 mis ar ôl cyhoeddi'r adroddiad, bydd Estyn yn cynnal ymweliad monitro â'r ysgol neu'r UCD ac yn gwneud un o'r penderfyniadau canlynol:

  1) os gwnaed digon o gynnydd, gellir tynnu'r ysgol neu'r UCD oddi ar restr yr ysgolion y mae angen gwelliant sylweddol arnynt
  2) efallai y bydd angen cynnal un ymweliad arall os yw'r ysgol neu'r UCD yn gwneud cynnydd digonol (mewn amgylchiadau eithriadol yn unig)
  3) os nad yw'r ysgol neu'r UCD wedi gwneud digon o gynnydd ac os nad yw'n dangos yn ddigonol fod ganddi'r gallu i wneud hynny, yna ystyrir rhoi'r ysgol yn y categori mesurau arbennig

Mae gan PAEM ddyletswydd i roi gwybod i Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg a'r awdurdod lleol bod angen gwelliant sylweddol ar yr ysgol neu'r UCD.

**Ymweliadau monitro ag ysgolion y mae angen gwelliant sylweddol arnynt**

Os nodir bod angen gwelliant sylweddol ar ysgol neu UCD, byddwn yn rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru bod y darparwr wedi'i roi mewn categori statudol.

Gofynnwn i'r ysgol a'r awdurdod lleol gydweithio i greu cynllun gweithredu ôl-arolygiad (CGOA) unedig. Dylid anfon hwn i Estyn cyn pen 20 diwrnod gwaith o gyhoeddi'r adroddiad. Yn ymarferol, byddwn yn cysylltu cyn hyn fel arfer i gynnig ein cymorth i'r ysgol.

Bydd ymweliad y CGOA yn ymweliad diwrnod, fel arfer. Bydd yr ymweliad yn ategu ein gwerthusiad ffurfiol o'r CGOA unedig (cynllun yr ysgol a datganiad gweithredu'r awdurdod lleol gynt). Byddwn yn trafod y cynlluniau ag arweinwyr yr ysgol, llywodraethwyr a chynrychiolwyr yr awdurdod lleol. Gyda'n gilydd, byddwn yn sicrhau bod y cynllun yn ddigon cadarn i fynd i'r afael â'r argymhellion a amlygwyd yn yr adroddiad fel mater o frys. Pan fyddwn yn barnu bod y cynllun yn bodloni'r gofynion, dylai'r ysgol a'r awdurdod lleol sicrhau eu bod yn anfon copi o'r ddogfen i Lywodraeth Cymru.

Wedi hynny, byddwn yn anfon tîm bach o arolygwyr Estyn i ymweld â'r ysgol neu'r UCD tua 12 i 18 mis ar ôl cyhoeddi'r adroddiad arolygu. Bydd yr ymweliad yn para deuddydd a hanner, fel arfer, a bydd nifer yr arolygwyr yn gymesur â maint a natur yr ysgol neu'r UCD. Bydd arolygwyr yn canolbwyntio ar y cynnydd a wnaed gan yr ysgol neu'r UCD tuag at fynd i'r afael â'r argymhellion a amlygwyd yn yr adroddiad, gan ystyried y cerrig milltir a nodwyd yn y cynllun gweithredu. Byddant yn ymgymryd ag ystod o weithgarwch arolygu, er enghraifft ymweld â dosbarthiadau, siarad â staff a disgyblion, a chraffu ar waith disgyblion.

Os bydd y tîm yn barnu bod yr ysgol neu'r UCD wedi gwneud digon o gynnydd mewn perthynas â'r argymhellion, bydd y tîm yn argymell i PAEM y dylid tynnu'r ysgol neu'r UCD oddi ar restr yr ysgolion y mae angen gwelliant sylweddol arnynt. Byddwn yn cyhoeddi adroddiad byr ar ein gwefan yn esbonio ein penderfyniad.

Os yw'r cynnydd yn annigonol, bydd y tîm fel arfer yn nodi bod angen mesurau arbennig ar yr ysgol neu'r UCD. Mewn achosion eithriadol, pan fydd yr ysgol wedi

gwneud cynnydd priodol a'i bod bron iawn, ond nid yn hollol barod, i gael ei thynnu oddi ar y rhestr, gallai'r tîm farnu bod angen gwelliant sylweddol ar yr ysgol neu'r UCD o hyd. Yna, bydd un ymweliad monitro pellach ymhen tua chwe mis, fel arfer. Dylai'r cyfnod o chwe mis sicrhau bod yr ysgol neu'r UCD yn barod i'w thynnu oddi ar y rhestr. Os nad ydyw, caiff y darparwr ei roi yn y categori mesurau arbennig.

## 3 Adolygu gan Estyn

Os bydd arolygwyr wedi rhoi ystyriaeth ddifrifol i roi ysgol / UCD mewn categori statudol ond wedi gwrthod hynny, ond maent yn poeni bod angen gweithgarwch dilynol, gallant ystyried a oes angen i ysgol / UCD gael ei hadolygu gan Estyn. Fel arfer, bydd ar ysgolion / UCDau angen y lefel hon o weithgarwch pan fydd gwendidau o ran ansawdd yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth sy'n effeithio ar ddeilliannau disgyblion. Er enghraifft, gallai'r ysgol / UCD fod â hanes amrywiol o gynllunio a gweithredu gwelliannau mewn digon o frys.

Os bernir bod angen i ysgol / UCD gael ei hadolygu gan Estyn, dylai'r arolygydd cofnodol roi gwybod i'r pennaeth neu'r athro sydd â gofal ar ddiwedd yr arolygiad bod y tîm wedi llunio'r farn hon, a llenwi'r adran berthnasol o'r FfF Adrodd. Ar ôl safoni a dilysu'r deilliannau arolygu cytûn o fewn Estyn, byddwn yn ysgrifennu llythyr o gadarnhad i'r ysgol, ac yn anfon copi ohono at yr awdurdod lleol, yn esbonio y bydd arolygwyr yn adolygu'r cynnydd a wnaed gan yr ysgol â'r awdurdod lleol.

Rydym yn ystyried adborth ac yn gwerthuso ein gwaith parhaus gydag awdurdodau lleol i bennu'r union fformat monitro ar gyfer adolygu gan Estyn o 2022 ymlaen. Mae'n debygol y bydd arolygwyr yn cydweithio â'r awdurdod lleol i fonitro cynnydd yr ysgol wrth fynd i'r afael â'r argymhellion sydd wedi'u hamlygu yn yr adroddiad tua 12-18 mis ar ôl cyhoeddi'r adroddiad. Os oes tystiolaeth glir o gynnydd a'i effaith ar wella deilliannau disgyblion, bydd Estyn yn tynnu'r ysgol oddi ar restr yr ysgolion y mae angen iddynt gael eu hadolygu gan Estyn, ac ni fydd unrhyw weithgarwch dilynol pellach. Os nad oes cynnydd clir yn amlwg, yna, fel arfer, bydd arolygwyr yn ymweld â'r ysgol i arsylwi a gwerthuso'r gwelliannau yn uniongyrchol. Mewn rhai achosion, gallai fod angen amser ychwanegol i ymgorffori'r gwelliannau. Byddwn yn darparu rhagor o fanylion pan fyddant ar gael.

## Bodloni'r gofynion statudol mewn ysgolion annibynnol

Mae Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003 yn llywodraethu gwaith ysgolion annibynnol. Rydym yn disgwyl i ysgolion annibynnol werthuso pa mor effeithiol y maent yn bodloni'r gofynion hyn drwy eu gweithdrefnau hunanwerthuso arferol eu hunain.

Bydd arolygwyr yn defnyddio'r hunanwerthusiad a gwybodaeth arall i nodi pa mor effeithiol y mae ysgol annibynnol yn bodloni ei gofynion statudol. Byddwn yn ymchwilio i unrhyw faterion yn ystod yr arolygiad lle maent yn debygol o gael effaith sylweddol ar safonau ac ansawdd.

Bydd arolygwyr yn nodi yn adroddiad arolygu'r ysgol annibynnol unrhyw fethiant i fodloni gofynion statudol sy'n effeithio ar ansawdd a safonau.

**Gweithgarwch dilynol mewn Ysgolion Annibynnol**

Pan fydd ysgol yn methu bodloni unrhyw rai o ofynion Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru), bydd yr ACof yn rhoi gwybod i'r ysgol yn y cyfarfod adborth terfynol a'r gofyniad am gydymffurfio â'r rheoliadau hyn fydd yr argymhelliad cyntaf yn yr adroddiad arolygu.

Bydd yr ysgol yn cael llythyr gan Lywodraeth Cymru yn rhoi gwybod iddi fod gofyn iddi gyflwyno cynllun gweithredu ôl-arolygiad ac erbyn pa ddyddiad y mae'n RHAID i'r CGOA ddod i law. Yn ogystal, bydd Llywodraeth Cymru'n amlinellu y gall methu mynd i'r afael â'r camau yn y CGOA yn llwyddiannus arwain at orchymyn i'r ysgol:

(a) roi'r gorau i ddefnyddio unrhyw ran o safle'r ysgol at bob diben neu at ddibenion sydd wedi'u pennu yn y gorchymyn;

(b) cau unrhyw ran o weithrediad yr ysgol;

(c) rhoi'r gorau i dderbyn unrhyw ddisgyblion newydd, neu ddisgyblion newydd o ran disgrifiad sydd wedi'i bennu yn y gorchymyn

Neu gall Llywodraeth Cymru

- benderfynu bod yr ysgol yn cael ei thynnu o'r gofrestr

Cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru yw sicrhau bod CGOAau yn cael eu cyflwyno'n amserol.

**Gweithgareddau Adolygu gan Estyn**

1. Byddwn yn adolygu'r CGOA a gyflwynwyd

2. Byddwn yn cynghori Llywodraeth Cymru p'un a ddylid derbyn y CGOA ai peidio

Os derbynnir y CGOA a chredwn fod gan yr ysgol y gallu i wneud y newidiadau gofynnol o fewn cyfnod rhesymol (12 mis ar y mwyaf), bydd yr ysgol yn cael ail ymweliad neu cwblheir gweithgarwch ar gyfrifiadur i werthuso'r cydymffurfio.

Bydd hyn yn arwain at lythyr i Lywodraeth Cymru yn nodi bod yr ysgol yn cydymffurfio'n llawn erbyn hyn a rhoddir y llythyr hwn ar ein gwefan, hefyd.

Os na dderbynnir y CGOA a/neu os ydym o'r farn nad oes gan yr ysgol y gallu i wneud y newidiadau gofynnol heb gymorth ychwanegol, dilynir y broses ganlynol.

Os gwrthodir y CGOA, bydd 1 AEF yn ymweld â'r ysgol i weithio gydag arweinwyr ar y safle i'w cynorthwyo â chwblhau'r CGOA.

Pan fydd CGOA wedi'i dderbyn, ond credwn nad oes gan yr ysgol y gallu i wneud y newidiadau gofynnol, bydd cyfres o ymweliadau dros uchafswm o 12 mis yn cael eu cynllunio.

Ar yr ymweliad olaf, y mae'n rhaid iddo ddigwydd o fewn 12 mis, byddwn yn gwerthuso p'un a yw'r ysgol yn cydymffurfio. Os ydy, ni fydd unrhyw gamau pellach

yn cael eu cymryd. Bydd hyn yn arwain at lythyr i Lywodraeth Cymru yn nodi bod yr ysgol yn cydymffurfio’n llawn erbyn hyn a rhoddir y llythyr hwn ar ein gwefan, hefyd.

Os nad yw'r ysgol yn cydymffurfio ar yr adeg hon, Llywodraeth Cymru (fel rheoleiddiwr) fydd yn gyfrifol am gymryd y camau angenrheidiol pellach.